**Papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y gwaith dilynol i'w ymchwiliad i ofal plant a chyflogaeth rhieni**
Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio (senedd.cymru)

## 1 Pwysigrwydd gofal plant a datblygiad plant

(gan ystyried: ***Cwestiwn y Pwyllgor – Pa ddulliau sydd ar gael i integreiddio darpariaeth gofal plant yng Nghymru, a sut y gellir lledaenu arfer gorau yn eang**.)*

1.1 Dylai pob babi a phlentyn ifanc gael cyfleoedd a phrofiadau ar gyfer mwynhad, hwyl a chreadigrwydd ac i gymdeithasu. Mae babanod a phlant ifanc yn byw yn y foment a dylent fwynhau'r rhyfeddodau niferus a'r hwyl a ddaw yn sgil hynny. Rydyn ni eisiau i bob babi a phlentyn gael plentyndod bendigedig. Rydym am iddynt ffynnu trwy gyfleoedd a phrofiadau da a fydd yn gwella eu llesiant a'u hapusrwydd ac yn eu galluogi i ddatblygu a dysgu.

1.2 Rydym am sicrhau bod pob babi a phlentyn ifanc, waeth beth fo'u cefndir, yn cael eu cefnogi i gael y dechrau gorau mewn bywyd a chyfle i gyrraedd eu llawn botensial fel y nodir yn ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae profiadau plentyndod yn chwarae rhan arwyddocaol wrth lunio dyfodol unigolion ac maent yn hanfodol i'r siawns o fyw bywyd iach, ffyniannus a bodlon. Mae darparu cymorth yn ystod eu blynyddoedd cynharaf yn hollbwysig.

1.3 Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yw'r term a ddefnyddiwn i ddisgrifio meithrin, dysgu a datblygiad babanod a phlant ifanc mewn lleoliadau gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin, yn y cyfnod cyn oedran ysgol statudol. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn seiliedig ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn gyda'r plentyn a datblygiad y plentyn yn ganolog iddo. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol plant i gynnal lles a dysgu gydol oes.

1.4 Mae ein hymagwedd at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer Cymru yn golygu datblygu a chyflwyno dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy ddarparu gofal plant o ansawdd uchel yn seiliedig ar chwarae a chyfleoedd addysg i bob babi a phlentyn ifanc 0-5 oed. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi ein polisïau a'n huchelgeisiau blynyddoedd cynnar ehangach yng Nghymru ac mae'n ymwneud yn bennaf â hyrwyddo partneriaethau a chydgysylltu rhwng ysgolion a lleoliadau yn ogystal â rhieni/gofalwyr, er budd plant a'u teuluoedd. Drwy wella gweithio mewn partneriaeth ar draws addysg, gofal plant a gwaith chwarae, rydym yn anelu at sicrhau'r un uchelgais o bontio di-dor o ansawdd uchel cyson rhwng lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae, a'r lleoliadau hynny ac ysgolion. Gwyddom fod mynediad at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn bwysig gan y gall helpu i gynnal adnabyddiaeth gynnar o angen, ymyrraeth gynnar, a phontio a dilyniant cadarnhaol i addysg.

1.5 Rydym yn cydnabod y gall gofal plant hygyrch a chynhwysol o ansawdd uchel fod yn drawsnewidiol i blant, ei fod yn dod â chyfleoedd i rieni, yn enwedig mamau, a'i fod yn allweddol i'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi plant a lleihau anghydraddoldebau. Mae gofal plant yn hanfodol i drechu tlodi, ac mae addysg feithrin o ansawdd uchel a gwasanaethau cymorth cynnar yn lliniaru effeithiau tlodi ar blant a theuluoedd drwy gefnogi datblygiad plant a gwella canlyniadau addysgol. Mae darpariaeth gofal plant hyblyg, fforddiadwy yn ganolog i gynorthwyo rhieni i wella eu hincwm trwy waith neu drwy gael mynediad at addysg a hyfforddiant.

1.6 Mae Amcan 2 y Strategaeth Tlodi Plant yn nodi'r ffyrdd yr ydym yn gweithio i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant mewn tlodi. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i ganolbwyntio gwaith ar draws y llywodraeth i ddod o hyd i atebion fforddiadwy i gostau gofal plant i ddileu rhwystrau i waith a gwneud i waith dalu. Rhaid cyflawni hyn heb beryglu'r angen i sicrhau bod yr holl ofal plant o ansawdd sy'n diwallu anghenion plant.

1.7 O ran lledaenu arfer gorau, mae prosiect gwella gofal plant a chwarae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi profi'r defnydd o gyfarfodydd gwella gyda lleoliadau rhwng arolygiadau arferol. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i ddarparwyr drafod cynnydd a heriau ers yr arolygiad diwethaf ac amlinellu eu cynlluniau ar gyfer gwelliant pellach cyn yr arolygiad nesaf. Maen nhw'n sgwrs strwythuredig sydd wedi'u cynllunio i helpu darparwyr i roi'r profiad gorau posibl i blant. Yn dilyn gwerthusiad cadarnhaol o'r peilot, bydd AGC yn cyflwyno cyfarfodydd gwella yn ehangach ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae yn y 12 mis nesaf. Bydd AGC hefyd yn gwella'r ffordd y mae'n hyrwyddo ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i arfer gorau ac yn cyflwyno cynhadledd wella flynyddol i ddarparwyr yng Nghymru. Yn y modd hwn, mae'r arolygiaeth yn anelu at hyrwyddo gwelliant yn y sector wrth barhau i gyflawni ei chyfrifoldeb i sicrhau ansawdd a diogelwch lleoliadau unigol.

***Cwestiwn y Pwyllgor – Pa wersi y gellir eu dysgu o arferion gorau rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol i wella polisi gofal plant yng Nghymru.***

1.8 Yn ddiweddar cyhoeddwyd ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, sy'n adeiladu ar ein dull gweithredu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a lansiwyd yn 2019. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n benodol ar themâu ansawdd y ddarpariaeth, mynediad at ddarpariaeth, a chefnogi a datblygu'r gweithlu. Yn sail i'n hymagwedd at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar mae pwysigrwydd darpariaeth o ansawdd uchel i gefnogi datblygiad plant. Mae ein Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru yn dwyn ynghyd y gofynion amrywiol ar gyfer darparu'r math o ddarpariaeth o ansawdd uchel y mae ei angen yng Nghymru. Mae'r Fframwaith Ansawdd yn tynnu ar ymchwil ac arfer cenedlaethol a rhyngwladol ym maes darpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar effeithiol a'i gyfraniad at ddatblygiad cyfannol plant. Dylai defnyddio'r Fframwaith Ansawdd sicrhau ein bod yn cynnig dulliau llwyddiannus, gwybodus, â thystiolaeth dda o ymdrin â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'n helpu i fyfyrio'n weithredol ar arfer a'i wella'n

barhaus er mwyn cynorthwyo pob babi a phlentyn ifanc yn well. Gwyddom fod twf cyflym a datblygiad yr ymennydd yn nodweddu blynyddoedd cynnar bywyd plentyn. Mae datblygiad yn cael ei ddylanwadu gan yr oedolion sy'n galluogi dysgu, y profiadau difyr a'r amgylcheddau effeithiol y mae pob plentyn yn dod ar eu traws. Dylai darpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd uchel gynorthwyo babanod a phlant ifanc i ffynnu yn ystod y cyfnod pwysig hwn o'u datblygiad.

## 2 Cynnydd ar yr argymhellion o adroddiad 2022

***Cwestiwn y Pwyllgor – Pa gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor o ddechrau 2022 – Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio.***

***Mae'r adran isod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion o adroddiad 2022 ynghyd ag ymatebion i rai o'r meysydd mwy penodol y mae'r Pwyllgor wedi gofyn cwestiynau yn eu cylch, sydd wedi'u cynnwys mewn print trwm ac italig er hwylustod.***

### Gwybodaeth i rieni

2.1 Mae'n hollbwysig bod rhieni'n gallu cyrchu'r cyfoeth o wybodaeth sydd eisoes ar gael o ran gallu gwneud dewisiadau gwybodus am ofal plant. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn hollbwysig o ran darparu gwybodaeth allweddol i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid a'u cyfeirio ati. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i wybod a deall anghenion y cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu, a thrwy ddarparu anogaeth yn ystod ein cyswllt rheolaidd â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, rydym yn ceisio sicrhau eu bod yn gynhwysol ac yn darparu gwybodaeth hygyrch i bawb yn y gymuned. Mae'r llyfryn ar-lein 'Dewis Gofal Plant' yn nodi manteision gofal plant a'r gwahanol fathau o ofal plant sydd ar gael, ble i ddod o hyd i ofal plant, a pha gymorth ariannol sydd ar gael i'ch helpu gyda chostau gofal plant. Mae'r llyfryn hwn yn cael ei ddiweddaru ddwywaith y flwyddyn a'i hyrwyddo i rieni a gofalwyr ar gyfryngau cymdeithasol gan Cwlwm, awdurdodau lleol a Gofal Cymdeithasol Cymru.

2.2 Yn 2017, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfres Pob Plentyn, a ddisodlodd Naw Mis a Mwy, fel y prif adnodd gwybodaeth iechyd a ddarperir i rieni am y tro cyntaf gan y GIG yng Nghymru. Bydd pedwar adnodd newydd yn y gyfres wedi'u cynllunio i gefnogi teuluoedd trwy feichiogrwydd a blynyddoedd cynnar bywyd eu plentyn. Mae'r adnoddau wedi'u datblygu gyda mewnbwn gan rieni, gweithwyr proffesiynol ac arbenigwyr pwnc ac maent yn ymdrin â'r wybodaeth hanfodol a phwysig y mae ei hangen ar deuluoedd yng Nghymru i helpu eu plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys gwybodaeth am ffurfio cwlwm, perthnasoedd rhwng rhieni a babanod, ac iechyd meddwl a lles rhieni.

2.3 Yn 2023, cyhoeddwyd 'Eich Beichiogrwydd a'r Enedigaeth' yng nghyfres Pob Plentyn ac, ym mis Ionawr eleni, cyhoeddwyd yr ail yn y gyfres, 'Newydd-anedig hyd at 2 oed', a'r ddogfen gyfatebol yn Saesneg, 'Newborn to age 2'.

Mae'r ddau adnodd arall yn y gyfres yn cael eu datblygu. Bydd Llyfryn 3 yn ymdrin â phlant o ddwy oed hyd at ddechrau'r ysgol, a bydd Llyfryn 4 yn ymdrin â phlant rhwng pedair a saith oed.

**Cyllid ar gyfer gofal plant**

***Cwestiwn y Pwyllgor – I ba raddau y mae darpariaeth gofal plant yng Nghymru yn darparu darpariaeth o ansawdd uchel sy'n cynnal datblygiad plant, yn mynd i'r afael â thlodi plant, ac yn cynorthwyo cyflogaeth rhieni. Pa newidiadau y gallai fod eu hangen i gyflawni'r canlyniadau hyn.***

***Cwestiwn y Pwyllgor – Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i ehangu 12.5 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i bob plentyn dwy oed, gyda phwyslais ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.***

***Cwestiwn y Pwyllgor – I ba raddau y mae digon o ofal plant ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol teuluoedd ledled Cymru, a sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal plant a wynebir gan grwpiau demograffig penodol ac ar draws gwahanol rannau o Gymru.***

2.4 Mae gofal plant yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Ym mis Rhagfyr 2023, roedd 11,800 o blant yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant, sy'n cynrychioli cyfradd manteisio o 53% o'r plant cymwys amcangyfrifedig. Ymhellach, ers dechrau blwyddyn academaidd 2022-23, rydym yn amcangyfrif bod tua 1,140 o rieni unigol ychwanegol wedi cael cymorth drwy ehangu'r cynnig i gynnwys rhieni cymwys mewn addysg/hyfforddiant. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein cynllun cyfathrebu strategol i hyrwyddo ein Cynnig Gofal Plant drwy amrywiaeth o sianeli i sicrhau bod rhieni cymwys yn cael eu hannog i fanteisio ar y cynnig.

2.5 Gwyddom ei bod yn bwysig i rieni allu cael mynediad at ofal plant sy'n diwallu anghenion eu teulu. Mae cymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant bob amser wedi cynnwys y rhieni hynny sy'n gweithio oriau annodweddiadol, gan gynnwys gweithio yn ystod y tymor a chontractau dim oriau, ond roedd gweithwyr yn ystod y tymor yn gymwys i gael cymorth yn ystod y tymor yn unig. Diwygiwyd hyn ym mis Medi 2022, ar yr un pryd ag y cafodd y meini prawf cymhwystra eu hymestyn i rieni mewn addysg a hyfforddiant, ac felly gall gweithwyr yn ystod y tymor gael y Cynnig Gofal Plant yn llawn. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod digon o ofal plant ar gael i helpu rhieni i weithio neu hyfforddi, gan gynnwys rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol a gwella argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yw'r modd y maent yn asesu'r cyflenwad a'r galw am ofal plant yn eu hardal.

2.6 Rhaid i Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant edrych ar y rhwystrau y mae rhieni yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal plant, gan gynnwys y rhwystrau penodol a wynebir gan grwpiau penodol o rieni – er enghraifft,

teuluoedd un rhiant, teuluoedd incwm isel, a theuluoedd o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Cynhelir yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant bob pum mlynedd a chynhaliwyd y diweddaraf yn 2022. Mae awdurdodau lleol yn llunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth sydd wedi'u hamlygu yn eu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant.

2.7 Cyhoeddwyd adroddiad annibynnol, Trosolwg o'r themâu allweddol yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022 i 2027, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, ym mis Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiad yn nodi bod y gofal plant sydd ar gael yn amrywio yn ôl awdurdod lleol ond bod anghenion heb eu diwallu a rhwystrau yn wynebu rhieni/gofalwyr ledled Cymru o ran cael mynediad at y ddarpariaeth sydd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy elfen Gofal Plant a Chwarae y Grant Plant a Chymunedau i helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth. Wrth ddefnyddio'r cyllid hwn, gofynnir i awdurdodau lleol roi ystyriaeth a chymorth arbennig i anghenion gofal plant a chwarae teuluoedd incwm isel; teuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol; a theuluoedd sy'n dymuno cael mynediad at ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.8 Yn ein Rhaglen Lywodraethu ac yn y Cytundeb Cydweithio gyda Plaid Cymru, rydym wedi ymrwymo i barhau i gefnogi ein rhaglen Dechrau'n Deg, ynghyd ag ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar fesul cam i bob plentyn dwy oed, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Rydym yn llwyddo i gyflawni ein cynlluniau ar gyfer ehangu ein darpariaeth gyffredinol fesul cam i bob plentyn dwy oed yng Nghymru. Dechreuodd y gwaith o gyflwyno'r cam cyntaf o ehangu Dechrau'n Deg ym mis Medi 2022 a daeth i ben ym mis Mawrth 2023. Roedd Cam 1 yn cynnwys holl wasanaethau Dechrau'n Deg yn cael eu cynnig i ryw 2,500 o blant ychwanegol o dan bedair oed. Cynhaliwyd Cam 1 rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023 felly mae'r gwaith o ddarparu Cam 1 eisoes wedi'i gwblhau. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd 127%, neu 3,178 o blant o'r rhif targed o 2,500 o fuddiolwyr ychwanegol wedi'u cyrraedd ledled Cymru.

2.9 Mae Cam 2 o ehangu Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar ddarparu'r elfen gofal plant o ansawdd uchel mewn lleoliadau Dechrau'n Deg i hyd yn oed mwy o blant dwy oed yn ystod 2023-24 a 2024-25. Disgwyliwn helpu mwy na 9,500 yn rhagor o blant dyflwydd oed ledled Cymru i gael mynediad at ofal plant Dechrau'n Deg safonol yn ystod Cam 2, ac rydym ar y trywydd iawn i sicrhau hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei tharged diweddaraf ar gyfer Cam 2 y gwaith o ehangu'r rhaglen gyda 4,500 o leoedd gofal plant ychwanegol wedi'u cynnig yn ystod 2023-24.

2.10 Er mwyn cyflawni'r cynnydd tuag at Cymraeg 2050, mae'n hanfodol cynyddu pwysigrwydd darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg cymaint â phosibl. Mae tystiolaeth glir bod plant sy'n mynychu cylchoedd meithrin yn fwy tebygol o fynd ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg. Y cyfartaledd cenedlaethol sy'n symud o gylch meithrin i ysgol cyfrwng Cymraeg yw 86% ac mae hyn yn cynyddu i 94% os yw'r cylch a'r ysgol wedi'u cydleoli. Mae hon yn neges glir sy'n dod drwy ein gwaith o fonitro Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn

Addysg awdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i annog mwy o gydleoli ar safleoedd ysgolion presennol yn ogystal ag wrth gynllunio ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd.

2.11 Rhoddwyd Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar gwerth £70 miliwn ar waith ym mis Hydref 2022 ac mae ar gael dros dair blynedd ariannol, rhwng 2022 a 2025. Mae'r rhaglen yn cynnwys cymorth ar gyfer Cyllid Grantiau Bach i awdurdodau lleol i ganiatáu i bob darparwr gofal plant a chwarae cofrestredig gyflwyno ceisiadau ar gyfer mân brosiectau cyfalaf. Pwrpas y cyllid cyfalaf hwn yw cynnal a gwella seilwaith gofal plant newydd a phresennol (gan gynnwys Dechrau'n Deg), i helpu i dyfu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a galluogi cydleoli gwasanaethau.

**Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

2.12 Mae nodi, ymyrryd ac atal yn gynnar yn nod allweddol yn ein diwygiadau ADY. Mae gweithrediad ADY yn cael ei fonitro trwy grŵp llywio diwygio ADY cenedlaethol a gwerthusiad cynhwysfawr, a thrwy gyfres o adolygiadau thematig gan Estyn. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda darparwyr, rhieni, plant a phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill i ategu ein gwaith i fonitro gweithrediad y system newydd a helpu i wireddu ei nodau. Ym mis Tachwedd 2023, gwnaeth cyn Weinidog y Gymraeg ac Addysg Ddatganiad Llafar i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu diwygiadau ADY. Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Estyn gam cyntaf ei adolygiad o weithrediad ADY; disgwylir i ail adolygiad Estyn gael ei gyhoeddi yn hydref 2024 ac mae gwaith ar yr ail gam wedi dechrau. Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddwyd Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: adroddiad cwmpasu. Mae'r adroddiad yn cyflwyno damcaniaeth newid ar gyfer y diwygiadau, yn crynhoi canfyddiadau o gyfuniad o dystiolaeth bresennol ar weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac yn mynegi'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer camau nesaf y gwerthusiad.

2.13 Mae Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru yn grant sy'n cael ei arwain gan alw ac, er y cafodd £2 miliwn ei ddyrannu i awdurdodau lleol i ddechrau yn 2023-24, nid oes cap uchaf a gellir cynorthwyo unrhyw blentyn y nodwyd bod angen cymorth arno i ymgymryd â darpariaeth a ariennir gan y Cynnig Gofal Plant. Rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant yn 2023-24 ac felly mae proffil y gyllideb gychwynnol ar gyfer y grant wedi cynyddu o £2 miliwn i £2.5 miliwn yn 2024-25 i ddarparu ar gyfer hyn – ond gellir adolygu hyn os bydd y galw yn cynyddu ymhellach. Mae gwerthusiad annibynnol o'r Grant Cymorth Ychwanegol ar y gweill ar hyn o bryd a disgwylir adroddiad arno yng ngwanwyn 2024. Mae'r gwerthusiad wedi archwilio materion ymwybyddiaeth a chyfathrebu y cymorth hwn, effeithiolrwydd yr ymyriadau y mae'n eu hariannu, a sut mae'r grant yn cyd-fynd â diwygiadau ADY ehangach.

**Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

2.14 Mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn rhaglen buddsoddi cyfalaf bellgyrhaeddol i fuddsoddi yn ein hystâd addysgol sy'n cefnogi ymrwymiadau

allweddol y Rhaglen Lywodraethu. Un peth allweddol yw sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad dysgu cefnogol, yn enwedig yn ystod eu blynyddoedd cynnar mewn addysg. Lle bo'n briodol, disgwylir i'n rhanddeiliaid ystyried cyfleusterau cofleidiol a chymorth y blynyddoedd cynnar, yn arbennig mewn unrhyw gynigion ysgol gynradd a gyflwynir ganddynt. Mae cydweithwyr addysg yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr gofal plant i sicrhau bod y cynigion hyn yn cael eu hadolygu'n gadarn ar y sail hon. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys ymrwymiad i "fuddsoddi yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol". Mae gwneud defnydd effeithiol o gyfleusterau addysgol ar gyfer plant a'r gymuned leol bob amser wedi bod yn nod allweddol sy'n sail i fuddsoddiad addysg drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Rhaid i bob cynnig buddsoddi ddangos sut y gellir defnyddio ei gyfleusterau i gefnogi ei gymuned leol, er mwyn eu gwneud yn adnoddau hygyrch a rennir ar draws cymunedau Cymru, yn ystod a thu allan i oriau ysgol, gan gynnwys y cyfle i gydleoli gwasanaethau yn arloesol ar gyfer eu hardal. Wrth adeiladu cyfleusterau cymunedol, mae angen i randdeiliaid gydymffurfio â Deddf Addysg 2002 a Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008, sy'n amlinellu cyfrifoldebau penodol mewn perthynas â chyfleusterau cymunedol. Mae'r rhain hefyd yn amodau grant o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Wrth i ni symud tuag at ein Rhaglen Dreigl ar gyfer Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, mae ein buddsoddiad naw mlynedd newydd o fis Mawrth 2024 yn parhau i wreiddio pwysigrwydd sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio mwy ar y gymuned fel y gall cyfleusterau fod yn hygyrch i bawb; gyda defnydd ac ymgysylltiad cymunedol yn brif ofyniad yn Rhaglen Amlinellol Strategol ein rhanddeiliaid ar gyfer buddsoddi.

2.15 Fel rhan o setliad cyllideb 2022/23, dyrannwyd £20 miliwn o fewn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i fwrw ymlaen â blaenoriaethau ysgolion bro, gan gynnwys cydleoli gwasanaethau/cyfleusterau cymorth. Neilltuwyd y cyllid hwn i awdurdodau lleol i'w wario o fewn y flwyddyn ariannol ar waith ar raddfa lai a fyddai'n cynorthwyo ysgolion i agor eu cyfleusterau y tu allan i oriau traddodiadol, e.e. mesurau diogelwch, llifoleuadau, storio, cyfleusterau newid. Bu'r gweithredu'n llwyddiannus, felly cymeradwywyd £40 miliwn fel Grant Cyfalaf Ysgolion Bro 100% i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni mwy o brosiectau dros flynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25. Mae'r drefn ariannu dwy flynedd hon, lle'r oedd prosiectau'n gymysgedd o waith bach, canolig a mawr, yn golygu y gall buddsoddiad, yn benodol ar gyfer darparu cyfleusterau bro yn ein hysgolion, fod yn fwy strategol, wedi'i dargedu ac yn gynaliadwy.

2.16 Ym mis Ebrill 2023, cymeradwywyd £28.2 miliwn ar gyfer prosiectau gwariant unigol gwerth <£0.5 miliwn, gyda chymorth cyllid ar gyfer prosiectau mwy o faint (gwariant o >£0.5 miliwn) yn galw am achos busnes unigol sy'n amodol ar gwblhau proses gymeradwyo y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn llwyddiannus. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau gwariant llawn o'r rhaglen gyllid hon erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024-25.

2.17 Erbyn blwyddyn ariannol 2025-26, byddwn wedi buddsoddi £60 miliwn mewn cyllid cyfalaf ysgolion bro sydd ar gael ledled Cymru, i wella seilwaith ein hysgolion nid yn unig er budd ein dysgwyr ond er budd y gymuned o’u cwmpas.

2.18 Ein huchelgais yw i holl ysgolion Cymru fod yn ysgolion bro – gan ymateb i anghenion eu cymuned, meithrin partneriaeth gref gyda theuluoedd, a chydweithio’n effeithiol gyda gwasanaethau eraill. Mae adeiladau ysgol yn lleoliad ardderchog ar gyfer clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Mae cynnal y ddarpariaeth hon ar y safle yn sicrhau parhad gofal a chyfleoedd chwarae a dysgu estynedig a gwell i blant. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu hymgysylltiad cymunedol, sy’n cynnwys gwybodaeth am glybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol.

2.19 Y flwyddyn ariannol hon rydym yn buddsoddi £6.5 miliwn i gynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan ysgolion. Rydym hefyd yn parhau i ariannu treial o reolwyr ysgolion bro, a fydd yn gweithio ar ddatblygu ymgysylltiad gwell rhwng ysgolion a’u cymunedau.

**Y gweithlu**

2.20 Mae adeiladu a chynnal gweithlu ffyniannus a chynaliadwy yn allweddol i gyflawni ein hymrwymiadau gofal plant a dyna pam mae cynorthwyo a datblygu’r gweithlu yn un o’r tair thema yn y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Bydd adolygiad ac adnewyddiad o gynllun gweithlu deng mlynedd Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yn cael ei gyhoeddi yn 2024 ac mae’n myfyrio ar y cynnydd hyd yma yn ogystal ag ailddatgan ein hymrwymiad i’r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae cyfrwng Saesneg a Chymraeg yn y dyfodol. Mae ein gwaith gyda phartneriaid yn allweddol i’n cefnogaeth barhaus i’r gweithlu a darparu cymorth i leoliadau cyfrwng Saesneg a Chymraeg dyfu ac i staff ffynnu.

2.21 Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud ymrwymiadau i ehangu ei chynnig Gofal Plant yn Lloegr ar gyfer rhieni cymwys sy’n gweithio o fis Ebrill eleni. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu sylw yn y cyfryngau yn adrodd bod Llywodraeth y DU yn wynebu heriau sylweddol o ran cyflawni’r ymrwymiadau hyn gan nad yw materion yn ymwneud â chapasiti’r gweithlu a seilwaith wedi cael sylw digonol. Yma yng Nghymru, rydym yn gwybod bod angen inni fynd i’r afael â’r materion hyn i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer gofal plant. Rydym wedi ymrwymo i gynnal a datblygu gweithlu uchel ei barch ac uchel ei sgiliau, sy’n cael ei werthfawrogi a’i gydnabod am y rôl hanfodol y mae’n ei chwarae ym mywyd plant. Nid ydym yn mynd i gyfaddawdu ar ein cymarebau staffio, lleihau gofynion cymwysterau, na pheryglu ansawdd y profiad a ddarparwn i blant a’u teuluoedd mewn unrhyw ffordd arall. I gefnogi recriwtio a chadw yn y sector, rydym yn gweithio gyda’n partner strategol, Gofal Cymdeithasol Cymru, sy’n rhedeg ymgyrchoedd recriwtio a phorth swyddi Gofalwn Cymru, i ddenu pobl sydd â’r sgiliau ac ymddygiadau cywir i’r sector. Mae ymgyrchoedd blaenorol wedi cynnwys hysbysebion teledu a radio i gyrraedd poblogaethau eang ac amrywiol.

2.22 Yn ystod Wythnos Brentisiaethau 2024 hefyd, canolbwyntiwyd ar ofal plant a chyhoeddwyd astudiaethau achos prentisiaethau gofal plant. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cael ei ariannu i gyflwyno'r cwrs cyflwyniad am ddim i ofal plant, sy'n rhoi cipolwg i gyfranogwyr ar weithio yn y sector. Mae Gyrfa Cymru yn bresennol ym mhob cwrs ac yn rhoi arweiniad a chymorth cyflogadwyedd. Mae'r cwrs wedi'i gyflwyno i amrywiaeth eang o garfanau, gan gynnwys Canolfan Gymuned Affricanaidd Abertawe a myfyrwyr rhaglen cyflogadwyedd Coleg Llandrillo. Ym mis Mawrth 2024, roedd 222 o unigolion wedi cwblhau'r cwrs. O'r rhain mae 18% bellach yn gweithio ym maes gofal plant neu'n astudio cymhwyster gofal plant. Mae 25% yn rhagor o'r rhai sydd wedi gwneud y cwrs yn ymwneud o hyd â Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn ceisio cymorth i fynd mewn i'r maes gofal plant. Dechreuodd llinyn person ifanc ym mis Ionawr 2024, gan weithio gydag ysgolion i hyrwyddo gyrfa mewn gofal plant i bobl ifanc.

2.23 Gwnaethom hefyd sefydlu panel trosolwg a gweithgorau ar gyfer Grŵp Argymhellion Adolygiad Gwarchod Plant yn 2023 i ystyried argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant. Nod yr adolygiad oedd deall y rhesymau dros y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant yng Nghymru, a gwneud argymhellion gyda'r nod o ddenu mwy o warchodwyr plant ac annog gwarchodwyr plant i aros yn y sector. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid y sector i fwrw ymlaen â'r argymhellion.

2.24 Rydym am i ofal plant, gwaith chwarae ac addysg gynnar fod yn yrfaoedd o ddewis ac rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i archwilio cofrestriad y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae i godi ei statws a gwneud yn glir bod gweithio ym maes gofal plant yn broffesiwn cydnabyddedig. Daeth ymgynghoriad ar gofrestru proffesiynol i ben ar 7 Mawrth – cyhoeddir adroddiad cryno yn ystod haf 2024.

2.25 Mae'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn cael cymorth ar hyn o bryd gan Raglen Hyfforddiant a Chymorth Llywodraeth Cymru i uwchsgilio. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo mynediad at gymwysterau allweddol a hyfforddiant sylfaenol, fel cymorth cyntaf pediatrig a hyfforddiant diogelu. Er bod arbedion wedi'u gwneud o gyllideb y Rhaglen Hyfforddiant a Chymorth yn 2023-24 a 2024-25 fel rhan o ymarfer cyllideb ehangach Llywodraeth Cymru, nid yw hyn wedi effeithio ar allu'r rhaglen i gynorthwyo mynediad at hyfforddiant gorfodol, arfer gorau a gwarchodwyr plant, yn ogystal â sicrhau mynediad at ystod o gymwysterau gwaith chwarae.

2.26 Rydym yn awyddus i gynyddu amrywiaeth y gweithlu yng Nghymru. Rydym yn gweithio tuag at yr amcanion gofal plant a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid y sector a DARPL. Mae adnoddau amrywiaeth y blynyddoedd cynnar wedi'u datblygu ac maent bellach ar gael i'r sector. Mae pecyn cymorth arfer gorau i gefnogi darparwyr hefyd yn cael ei ddatblygu.

2.27 Er mwyn cynyddu maint ein gweithlu cyfrwng Cymraeg, rydym wedi darparu cyllid penodol i ddysgwyr astudio cymwysterau gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi ariannu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i

ddatblygu cwrs Cymraeg canolradd yn benodol ar gyfer gweithwyr gofal plant i fagu hyder mewn defnyddio'r iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae hyn yn cynnwys darparu £528,000 yn 2024-25 a £1,108,800 yn 2025-26 i Mudiad Meithrin i gefnogi parhad cyrsiau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau i 100 o ddysgwyr Lefel 3 a 50 o ddysgwyr Lefel 5 drwy'r rhaglen Cam wrth Gam.

**Cefnogaeth i'r sector gofal plant**

***Cwestiwn y Pwyllgor – Sut mae pwysau costau byw wedi effeithio ar ddarparwyr gofal plant a'r gweithlu, a pha effeithiau y mae'r rhain wedi'u cael ar y sector.***

2.28 Er gwaethaf yr heriau cyllidebol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru, wedi'u gwaethygu gan yr argyfwng costau byw presennol a'r pandemig, rydym yn dal i gymryd camau i gynorthwyo'r sector gofal plant lle y gallwn, i geisio lleihau costau cyffredinol drwy ymestyn rhyddhad ardrethi busnes o 100% ar gyfer safleoedd gofal plant cofrestredig. Bydd ymestyn y rhyddhad ardrethi, tan 31 Mawrth 2025, yn arbed £9.7 miliwn mewn costau cyffredinol i ddarparwyr gofal plant cofrestredig.

2.29 Cafodd cyfradd y Cynnig Gofal Plant, sy'n hanfodol nid yn unig i deuluoedd ond i lawer o ddarparwyr gofal plant, ei chynyddu i £5 y plentyn yr awr ym mis Ebrill 2022, yn dilyn adolygiad ac ymgysylltu â'r sector. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 11%. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i adolygu'r gyfradd hon o leiaf bob tair blynedd. Cynhelir adolygiad nesaf o gyfradd y Cynnig Gofal Plant yn 2024-25. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd y cam rhagarweiniol o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn y sector i nodi'r materion allweddol y mae angen eu hystyried fel rhan o'r adolygiad a chytuno ar y dull mwyaf priodol o sicrhau ymgysylltu â'r sector drwy gydol y broses.

2.30 Mae'r rhyddhad ardrethi busnes a chyfradd gynyddol y Cynnig Gofal Plant wedi'u hanelu at gynorthwyo'r sector i fynd i'r afael â'r heriau economaidd y gallent fod yn eu hwynebu, gan gynnwys cynnydd mewn cyflogau staff, pensiynau, a chostau gweithredu eraill.

**Darpariaeth y tu allan i oriau ysgol**

2.31 Mewn perthynas â darpariaeth y tu allan i oriau ysgol, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs fel rhan o'r grant blynyddol i gonsortiwm Cwlwm i gynorthwyo a chynghori'r sector y tu allan i oriau ysgol yng Nghymru, gan helpu i sefydlu clybiau newydd a chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hyn yn cynnwys ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu allan i oriau ysgol. Rydym wedi dyrannu cyllid ychwanegol o £5,423,800 ar gyfer Cwlwm dros gyfnod o bedair blynedd i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu fel y maent yn ymwneud ag ehangu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn

yn cynnwys £100,000 y flwyddyn i gynorthwyo mwy o glybiau chwarae ac ar ôl yr ysgol i hyfforddi ar gyfer cymhwyster gwaith chwarae i gefnogi ehangu gwasanaethau cofrestredig, i gydnabod adborth rhanddeiliaid nad yw bron i 95% o glybiau ar ôl yr ysgol cyfrwng Cymraeg wedi'u cofrestru. Byddai buddsoddi mewn cefnogi'r lleoliadau hynny i gofrestru hefyd yn cefnogi cynnydd mewn capasiti cyfrwng Cymraeg.

2.32 Mae'r cynnig mwy cyffredinol o ddarpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer ysgolion unigol ac mae ystod o sefydliadau y gallant weithio gyda nhw i ddarparu'r cynnig hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr ym meysydd chwaraeon, diwylliant, gofal plant, chwarae ac ieuenctid. Drwy ein darpariaeth Ysgolion Bro, rydym yn cefnogi ysgolion drwy ystod o ganllawiau a chyllid i ddatblygu eu dulliau gweithredu.

2.33 Ar gyfer 2022–2025, mae £1 miliwn y flwyddyn ariannol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol drwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan ar gyfer parhau â'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae i gefnogi mynediad plant at gyfleoedd chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol gydag argaeledd bwyd/byrbrydau mewn ardaloedd a dargedir. Ymhellach, fel rhan o'n hasesiad o geisiadau grant cyfalaf, rydym am geisio annog prosiectau sy'n mynd ati i gryfhau'r trefniadau ar gyfer darpariaeth gofleidiol a thu allan i oriau ysgol.

2.34 Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu tymor byr, canolig a hir yn dilyn argymhellion a wnaed yn adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad Gweinidogol o Chwarae – Ymateb i argymhellion y Grŵp Llywio (23 Hydref 2023) | LLYW.CYMRU i hyrwyddo pwysigrwydd cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc.

**Y Gorchymyn Eithriadau**

2.35 Rydym hefyd wedi dechrau cynnal adolygiad cwmpasu i ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Bydd yn cael ei adolygu o safbwynt Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo datblygiad plant, cyfleoedd cymdeithasol, lles a chydraddoldeb. Bydd yr adolygiad yn ystyried tair thema allweddol y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: cefnogi'r gweithlu, ymdrechu am wasanaethau o ansawdd uchel, a hyrwyddo mynediad. Blaenoriaeth allweddol yr adolygiad hwn yw sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu cael mynediad at ofal plant a gweithgareddau diogel o safon sy'n diwallu eu hanghenion a hefyd anghenion eu teuluoedd.

## 3 Casgliad

***Cwestiwn y Pwyllgor – Sut mae angen ystyried rhwystrau ariannol ac ymarferol wrth ddatblygu polisi gofal plant yn y dyfodol.***

3.1 Mae gweithredu ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn uchelgais hirdymor. Rydym wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant yn ogystal â chydbwyso hyn â helpu rhieni i allu cael gofal plant hygyrch a fforddiadwy. Rydym yn cyflawni ein hymrwymiadau a nodir yn

y Rhaglen Lywodraethu ac, ar ôl iddynt gael eu cyflawni, byddwn yn ystyried beth fydd y cam nesaf yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael.